# Pwyllgor Craffu Economi, Trigolion, Cymunedau a Llywodraethu

Man Cyfarfod
**By Teams**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Llun, 12 Gorffennaf 2021**

Amser y Cyfarfod
**10.00 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Wyn Richards, Rheolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
wyn.richards@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | DATGANIADAU O FUDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod.

| 3. | DATGANIAD CHWIP Y PLEIDIAU |
|---|---|

Derbyn datganiadau ynglyn â gwaharddiad chwip plaid a gyflwynwyd i Aelod mewn perthynas â'r cyfarfod yn unol ag Adran 78 (3) Mesur Llywodraeth Leol 2001.

(D.S: atgoffir yr Aelodau, dan Adran 78, na all Aelodau sydd wedi derbyn gwaharddiad chwip plaid bleidleisio ar fater gerbron y Pwyllgor.

| 4. | PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL - DIWEDDARIAD |
|---|---|

Derbyn ac ystyried adroddiad y Cydlynydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.
(Tudalennau 1 - 8)

| 5. | GWEITHGORAU AELODAU A SWYDDOGION |
|---|---|

Ystyried sefydlu a phenodi Aelodau i'r Gweithgorau Aelodau a Swyddogion canlynol.

Argymhellir na ddylai Gweithgorau gynnwys mwy na 5 Aelod.

Er bod Gweithgorau'n cael eu sefydlu ar sail anwleidyddol dylent gynnwys cynifer o grwpiau gwleidyddol ag sy'n ymarferol.

(i) Datblygiadau a Ffosffadau mewn afonydd

(ii) Ffermydd Sirol

(iii) Prynu Tai Sector Preifat

Bydd angen sefydlu Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn yn y cyfarfod cyntaf i gynnwys meysydd i'w cynnwys yn yr adolygiad, canlyniad disgwyliedig yr adolygiad craffu.

| 6. | RHAGLEN WAITH CRAFFU |
|---|---|

Nodi y bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 06-09-21<br><br>10.00 - 12.00<br>Teams Live | • Arweinyddiaeth a phrentisiaeth<br>• Tlodi Plant.<br>• Diweddariad ailgylchu |
| 18-10-21<br><br>14.00 - 16.00<br>Teams Live | • Perfformiad Chwarter 2 + Risg<br>• Cyllid Chwarter 2 + arbedion effeithlonrwydd y gyllideb |
| 29-11-21<br><br>10.00 - 12.00<br>Teams Live | • Trosedd ac Anhrefn / Adolygiad Diogelwch Cymunedol / Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |

| 7. | EITEM EITHRIEDIG |
|---|---|

Ystyried derbyn y Penderfyniad canlynol:

PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem ganlynol o fusnes ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt o dan gategori 1 o Orchymyn Awdurdodau Lleol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007).

Mae'r Swyddog Monitro wedi penderfynu bod categori 1 o'r Rheolau Mynediad at Weithdrefn Wybodaeth yn berthnasol i'r eitem ganlynol. Ei farn ar y prawf budd cyhoeddus (ar ôl ystyried darpariaethau Rheol 14.8 o Reolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor) oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).

Mae'r ffactorau hyn yn ei farn ef yn bwysicach na diddordeb y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth hon. Gofynnir i'r Aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar y prawf budd cyhoeddus, y mae'n rhaid iddynt benderfynu arno wrth ystyried eithrio'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **8.** | **'MOVING ON UP'** |

Derbyn ac ystyried adroddiad cyfrinachol yr Aelod Portffolio ar faterion Datblygu Economaidd, Cynllunio a Thai a gwneud arsylwadau ac argymhellion i'r Cabinet.
(Tudalennau 9 - 72)

**Cyfnod Myfyrio gan y Pwyllgor**
Gofynnir i'r Pwyllgor gymryd 5 i 10 munud i fyfyrio ar y cyfarfod heddiw.